Creawdwyr ifanc wedi pacio eu dychymyg i ail-greu Castell Harlech â LEGO

Mae Cymunedau G2G CIC mewn partneriaeth â CADW, Llywodraeth Cymru a LEGO wedi profi unwaith eto fod gweithio mewn partneriaeth wir yn gweithio. Mae cyllid Ewropeaidd drwy WCVA yn y gorffennol wedi helpu G2G i gael ceiswyr gwaith, oedolion sy'n dysgu a menywod sy'n dychwelyd, i ddatblygu eu sgiliau mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg yn Stiwdio Addysg LEGO gymunedol gyntaf y Deyrnas Unedig yng Ngogledd Cymru. Dyma adroddiad Dr Bill Lockitt ar gyfer *Rhwydwaith Cymru.*

Cymerodd cannoedd o blant ledled Cymru ran mewn cyfres o weithdai llawn dychymyg dros wyliau'r Pasg - a chael y cyfle i ailadeiladu cestyll enwog Cymru â LEGO.

Cynhaliwyd cyfanswm o chwe sesiwn dwy awr gan Cymunedau G2G CIC ar gais CADW / Llywodraeth Cymru yng Nghaer Rufeinig Segontiwm yng Nghaernarfon. Roedd gweithdai Creu gyda Cadw hefyd yn gyfle i blant animeiddio straeon o orffennol Cymru gan ddefnyddio technoleg ddigidol ar ffurf iPad/LEGO Movie Maker.

Cafodd y cyfranogwyr wybod mwy hefyd ynglŷn â Chastell Harlech gan ddefnyddio Byd Harlech Cymunedau G2G CIC a Minecraft Edu.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Ken Skates: 'Mae hwn yn gyfle rhagorol i gael pobl ifanc i ddysgu am ein hanes cyfoethog mewn ffordd hwyliog. Rydyn ni'n lwcus bod gennym ni safleoedd gwych ledled Cymru sy'n ysbrydoliaeth berffaith i feddyliau ifanc, creadigol.

'Bydd annog plant i ymwneud â'u treftadaeth mewn ffyrdd newydd yn sicrhau bod straeon rhyfeddol Cymru'n cael eu cadw'n fyw a'u trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.'

Roedd y gweithdai'n rhan o ymgyrch 'Paciwch eich Dychymyg' gan Cadw, a gafodd ei lansio fis Chwefror gyda fideo yn dangos y broses o ail-greu Castell Rhuddlan gyda 5,000 o ddarnau Lego.

Dywedodd Moira Lockitt – Cyfarwyddwr Cymunedau G2G CIC: 'I adeiladu'r castell, fe brynon ni 3,500 o friciau LEGO. Daeth dros 120 o blant a rhieni atom dros y tridiau gan ailadeiladu Castell Harlech chwe gwaith i gyd.

'Mae'r un olaf a ailadeiladwyd bellach yn cael ei arddangos yn ein Stiwdio Arloesedd Addysg LEGO yng Nghanolfan Fusnes Bee and Station yn y Rhyl ond fe fydd yn cael ei arddangos yn barhaol yn y ganolfan ymwelwyr newydd yn Harlech pan fydd yn agor nes ymlaen eleni.'

'Mae gan Cymunedau G2G CIC yr adnoddau bellach i fynd â'r gweithgaredd hwn i ysgolion ledled y Gogledd ac eisoes rydym wedi



datblygu deunyddiau cwricwlwm er mwyn dod â hanes yn fyw gan ddefnyddio LEGO.

'Fe roddir prawf ar y gweithgareddau yn ystod Mai/Mehefin yn barod i'w rhoi ar waith mewn ysgolion ym mis Medi 2015'.

Am ragor o wybodaeth ebostiwch moira@g2gcommunities.org neu Info@g2gcommunities.org.